

Cofnod y Trafodion The Record of Proceedings

[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)

[The Children, Young People and Education
Committee](#)

24/09/2015

[Trawsgrifiadau'r Pwyllgor](#)
[Committee Transcripts](#)



Cynnwys Contents

- 4 Cynnig i Ethol Cadeirydd Dros Dro
Motion to Elect a Temporary Chair
- 4 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introductions, Apologies and Substitutions
- 5 Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol—Ein Rhanbarth ar Waith
(ERW)
Discussion with Regional Education Consortia—Education through
Regional Working (ERW)
- 44 Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol—Gwasanaeth
Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)
Discussion with Regional Education Consortia—Regional School
Effectiveness and Improvement Service for North Wales (GwE)
- 85 Papurau i'w Nodi
Papers to Note
- 86 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i Benderfynu Gwahardd y
Cyhoedd o Weddill y Cyfarfod
Motion under Standing Order 17.42 (ix) to Resolve to Exclude the
Public from the Meeting for the Remainder of the Meeting

Cofnodir y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y pwyllgor. Yn
ogystal, cynhwysir trawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd.

The proceedings are recorded in the language in which they were spoken in
the committee. In addition, a transcription of the simultaneous interpretation
is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Angela Burns	Ceidwadwyr Cymru Welsh Conservatives
Keith Davies	Llafur Labour
Suzy Davies	Ceidwadwyr Cymru Welsh Conservatives
Bethan Jenkins	Plaid Cymru The Party of Wales
David Rees	Llafur (Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor) Labour (Temporary Chair of the Committee)
Aled Roberts	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Simon Thomas	Plaid Cymru The Party of Wales

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Ian Budd	Cyfarwyddwr Arweiniol Gogledd Cymru, GwE Lead Director of North Wales, GwE
Eifion Evans	Cyfarwyddwr Strategol: Dysgu a Phartneriaethau / Cyfarwyddwr Arweiniol Rhanbarthol, ERW Strategic Director: Learning and Partnerships / Regional Lead Director, ERW
Huw Foster Evans	Rheolwr Gyfarwyddwr, GwE Managing Director, GwE
Betsan O'Connor	Rheolwr Gyfarwyddwr, ERW Managing Director, ERW

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Sarah Bartlett	Dirprwy Clerc Deputy Clerk
Marc Wyn Jones	Clerc Clerk
Sian Thomas	Y Gwasanaeth Ymchwil Research Service

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:33.
The meeting began at 09:33.*

Cynnig i Ethol Cadeirydd Dros Dro Motion to Elect a Temporary Chair

[1] **Mr Jones:** Bore da. Yn **Mr Jones:** Good morning. In the absence of the Chair this morning, the first item on the agenda is the election of a temporary Chair. I therefore ask for nominations.

[2] **Aled Roberts:** Gwnaf i enwebu **Aled Roberts:** I nominate David Rees. David Rees.

[3] **Mr Jones:** Rwy'n datgan felly **Mr Jones:** I therefore declare that David Rees is appointed temporary Chair in accordance with Standing Order 17.22.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon Introductions, Apologies and Substitutions

[4] **David Rees:** Good morning. Can I welcome Members and the public to this morning's session of the Children, Young People and Education Committee? Can I go through the processes first? Remember, Members, it is a bilingual meeting and, if anyone needs simultaneous translation from Welsh to English, it is available on the headphones via channel 1. If anyone requires amplification on the headphones, that's channel 2. There are no fire drills scheduled for this morning. So, if one does take place, please follow the directions of the ushers and leave the building to the appointed place. If you have mobile phones, can you please either make sure they're off or switched to 'silent' so they don't interfere with the broadcasting equipment? And that includes things like iPads as well. We've received apologies from John Griffiths and our Chair, Ann Jones. Can I wish Ann Jones a speedy recovery? We've not received indications of any substitutions this morning. Are there any declarations of interest that Members wish to make before we start today's proceedings?

[5] **Simon Thomas:** Mae gen i **Simon Thomas:** I have a child in an

blentyn yn un o ysgolion ERW. ERW school

[6] **Aled Roberts:** Mae gen i blentyn yn un o ysgolion GwE. **Aled Roberts:** I have a child in one of the GwE schools.

[7] **Keith Davies:** Rwyf i ar fwrdd llywodraethu un o ysgolion ERW. **Keith Davies:** I am on the board of governors in an ERW school.

[8] **Aled Roberts:** O, ie, gwell imi gadarnhau hynny hefyd. **Aled Roberts:** Oh, yes, I should also confirm that, too.

[9] **David Rees:** Anyone else? Okay. Well, I'll put on record that my grandchildren, therefore, are also in a school under the ERW consortium.

09:35

Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol—Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)

Discussion with Regional Education Consortia—Education through Regional Working (ERW)

[10] **David Rees:** Okay, if we move on, then, to the next item of business. This morning, we continue our sessions looking at the regional consortia and the effectiveness of the consortia. We welcome the first witnesses, who are representing ERW, or Education through Regional Working. Good morning and welcome. I welcome Eifion Evans, who is the strategic director of learning and partnerships. And can I welcome Betsan O'Connor, who is the—chief executive or managing director?

[11] **Ms O'Connor:** Managing director.

[12] **David Rees:** The managing director of ERW. Thank you for the paper you submitted to the committee. Obviously, we have some questions that we wish to pursue with you in relation to the paper and, perhaps, other areas all around the consortia. If we start those questions—we'll go straight into them. Simon Thomas.

[13] **Simon Thomas:** Diolch, Gadeirydd. Yn gyntaf oll, ar sail y papur rydych chi wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor, a fedrwch chi ddweud i ba **Simon Thomas:** Thank you, Chair. First of all, on the basis of the paper that you submitted to the committee, can you tell us to what extent it's

raddau y mae modd priodoli'r gwelliant sydd wedi bod dros ardal ERW i waith y consortiwm, a faint sydd oherwydd gwaith yr awdurdodau lleol?

possible to attribute the improvement that there has been over the ERW region to the work of the consortium, and how much is down to the work of the local authorities?

[14] **Mr E. Evans:** Océ; os gwnaf i ddechrau. A gaf i, yn gyntaf, ymddiheuro ar ran Cynghorydd Ali Thomas? Cynghorydd Ali Thomas sy'n arwain y cydbwyllgor yn ERW. Roedd wedi dymuno dod gyda ni y bore yma, ond yn anffodus mae cabinet gydag ef yn Nedd Port Talbot. Felly, byddai ef hefyd wedi dymuno bod yma.

Mr E. Evans: Okay; if I could start. May I, first of all, apologise on behalf of Councillor Ali Thomas? Councillor Ali Thomas leads the joint committee in ERW. He had wanted to be here with us this morning, but unfortunately he has a cabinet meeting in Neath Port Talbot. So, he also would have wanted to be here.

[15] O safbwynt, wedyn, y cynnydd sydd wedi bod, byddwn i'n hyderus i ddweud bod y cynnydd, yn enwedig yn y canlyniadau sydd wedi dod i mewn eleni, yn benodol i lawr i'r cydweithio agos iawn sydd wedi digwydd ar draws rhanbarth ERW. Mae cysondeb gyda ni bellach o ran y ffordd a'r fethodoleg mae'r ymgynghorwyr her yn ymdrin â'n hysgolion ni—nid yn unig o roi'r her strategol iddyn nhw, ond, yn ogystal â hynny, adnabod lle mae angen y gefnogaeth fwyaf addas a mwyaf priodol ar gyfer codi'r safonau yna. Rwy'n dewis fy ngeiriau yn ofalus. Rydym ni'n dawel hyderus bod ERW wedi gwneud cynnydd sylweddol iawn eleni. Mi fydd y data hynny yn cael eu dilysu mewn cwpwl o fisoedd, ond rwy'n credu ei fod yn rhywbeth, fel rhanbarth gyfan, rydym ni'n gallu rhoi yn benodol i lawr i'r cydweithio

From the point of view of the progress that has been made, I would confidently say that the progress, particularly in this year's results, is specifically down to the very close collaboration that's happened across the ERW region. We now have consistency in terms of the way and the methodology that the challenge advisers deal with our schools—not only in posing that strategic challenge, but also identifying the most suitable and most appropriate support is needed in order to raise those standards. I'm choosing my words carefully, here. We are quietly confident that ERW has made very significant progress this year. Those data will be validated in a few months' time, but I think it's something that, as a region, we can put down primarily to close collaboration; under Betsan's

agos; dan arweiniad Betsan, rydym wedi llwyddo gwneud hynny.

leadership, we have succeeded in doing that.

[16] **Simon Thomas:** Diolch am hynny, ac rwy'n gweld eich bod chi wedi rhoi'r ffigwr amlinellol yn y dystiolaeth rydych wedi ei chyflwyno. Petawn ni'n edrych yn ôl dros y tair blynedd diwethaf, ers dechrau'r holl broses, roedd ERW trwyn ar y blaen, fel petai—ychydig—ac mae'r patrwm yna wedi aros, ond fedrwch chi ddadlau bod ambell i gonsortiw arall wedi cynyddu mwy. Efallai bod ganddynt fwy o job i'w gwneud, hefyd, cofiwch, ond gan mai gwaith y consortiw yw gwella ysgolion, a ydych chi hefyd yn dawel hyderus bod hynny'n rhywbeth sy'n digwydd yn gyson nawr, dros ardal y consortiw, a bod yr arfer da yn treiddio trwyddo?

Simon Thomas: Thank you for that, and I see that you have given the outline figure in the evidence that you have submitted. If we were to look back over the past three years, since this process first began, ERW was just a little bit ahead at the time, and that pattern has remained, but you could argue that a few of the other consortia have improved to a greater degree. Perhaps they had a bigger job to do, of course, but as the consortium's job is to improve school performance, are you also quietly confident that that is something that is consistently happening, now, over the consortium's region, and that the good practice is filtering through?

[17] **Ms O'Connor:** Beth rydym wedi trio sicrhau yw—. Oherwydd ein bod ni, fel rhanbarth, yn gweithio fel partneriaeth agos iawn gyda'r awdurdodau lleol, nid oes ffin. Rydym yn gallu sicrhau cysondeb ac mae arfer da rydym yn gallu tynnu arno ar draws ardal eang—fel rydych chi'n ymwybodol, mae'n ardal ddaearyddol eang—felly mae'r arfer orau yna yn gallu treiddio, mae'n gallu teithio, ac rydym ni, rwy'n credu, yn gallu gwneud camau, wedyn. Efallai eu bod nhw'n gamau bach, ond maen nhw'n gamau cyson, da, ac mae hynny'n hollbwysig i sicrhau dilyniant dros gyfnod hir.

Ms O'Connor: What we have tried to ensure is—. Because we, as a region, work in very close partnership with the local authorities, there is no boundary. We can ensure consistency and there is good practice that we can draw on from across a very broad area—as you are aware, it is a very broad geographical area—so that best practice can permeate, and can be rolled out, and I think that we can then take steps. They may be small steps, but they are consistent steps, and good steps, and that is crucial to ensure continuity over the long term.

[18] Rydym hefyd yn gwybod, o ran perfformiad plant â phrydiau ysgol am ddim, fod y cynnydd yna hyd yn oed yn fwy cyflym na'r cynnydd rydym ni'n ei wneud ar y prif ddangosydd. Felly, rydym eto yn hapus iawn gyda'r cynnydd maen nhw'n ei wneud achos rydym yn gwybod bod hynny'n rhywbeth mae'n rhaid i ni i gyd weithio arno, ac rydym ni yn ERW wedi gweithio a ffocysu ar hynny yn benodol, achos ein bod ni yn moyn ffocysu ar y prif nod, sef codi safonau i ddysgwyr.

We also know, in relation to the performance of children receiving free school meals, that progress there is even greater than the progress on the main indicator. So, we are, once again, very pleased with the progress made there, because we know that that is something that we must all collaborate on, and we in ERW have worked on that and focused on that specifically, because we want to focus on the main aim, which is to enhance standards for pupils.

[19] **Simon Thomas:** Rydych chi newydd sôn am blant sy'n derbyn prydiau ysgol am ddim, ac roedd hynny'n un o'r llefydd lle'r oedd adolygiad Estyn wedi canfod, er gwaetha'r ewyllys ac er gwaethaf ambell i strategaeth, fod diffyg darpariaeth ar draws y consortia. A ydych chi wedi dysgu o'r broses yna? A ydych chi wedi newid unrhyw beth yn sgil adroddiad Estyn?

Simon Thomas: You have just talked about children who receive free school meals, and that was one of the areas where Estyn's review found that, despite good will and despite the odd strategy, there was a lack of provision across the consortia. Have you learned from that process? Have you changed anything as a result of Estyn's report?

[20] **Ms O'Connor:** Un o'r pethau rydym ni wedi ei wneud yn sgil adroddiad Estyn yw tynnu at ei gilydd o dan un strategaeth ein gwaith ni i gyd ar leihau impact tlodi ar gyrhaeddiad. Felly, rydym ni wedi gallu cyplysu popeth oedd gyda ni, edrych a gwneud dadansoddiad manwl o beth oedd yn gweithio ar lefel dosbarth, ar lefel ysgol, ar y lefel mwy strategol o fewn awdurdod ac ar lefel rhanbarthol, ac edrych ar beth oedd yn fwyaf llwyddiannus.

Ms O'Connor: One of the things that we have done in the light of the Estyn report is to draw together under a single strategy all of our work on reducing the impact of poverty on attainment. Therefore, we've been able to bring all of the strands together and carry out a detailed study of what actually worked at the classroom level, on a school level, the more strategic level within an authority and also at a regional level, and look at what was most successful

[21] Rŷm ni hefyd wedi sylweddoli bod peth o'r gwaith roeddem ni'n ei wneud yn aflwyddiannus. Er enghraifft, gweithio o fewn ysgolion o amgylch y teulu, mae hynny wedi cael impact mawr mewn rhai o'n siroedd ni. Hefyd, wrth gwrs, edrych ar impact gwahanol fathau o dlodi, er enghraifft, mae'r math o dlodi rŷm ni'n ei weld ar hyd yr holl arfordir sydd gennym ni yn ERW yn wahanol iawn i'r tlodi, efallai, sydd o fewn cymunedau yn Nedd ac Afan yn ne'r rhanbarth. Felly, trio edrych yn fwy manwl, a rŷm ni nawr wedi comisiynu darn o waith ymchwil i'n helpu ni i baratoi'n well ar gyfer ymateb i anghenion plant unigol,

[22] **Simon Thomas:** Pan oeddem ni fel pwyllgor yn cynnal astudiaeth ar y mater hwn—y cyswllt rhwng cyrhaeddiad plant ac amddifadedd—ar y pryd, fe wnaeth Ceredigion ddod i mewn i roi tystiolaeth. Un o'r pethau a gafodd eu crybwyll yn y dystiolaeth honno ac a gafodd ei adlewyrchu yn adroddiad y pwyllgor oedd y ffaith bod Ceredigion yn gwneud llawer o waith i olrhain plentyn fesul un, ac yn mesur, mewn sawl maes, sut oedd y plentyn yn gwneud ac yn cyflawni ar draws y cwricwlwm, fel petai. Roedd hynny'n cael ei bortreadu fel enghraifft o arfer da, o gofio mai Ceredigion, wrth gwrs, oedd yr unig awdurdod addysg yng Nghymru a wnaeth gyrraedd y lefel o fod yn ardderchog. A yw hwn yn batrwm sydd wedi'i ddysgu o Geredigion ac sy'n cael ei ddefnyddio

We've also realised that some of the work we were doing wasn't particularly successful. For example, working within schools around the family; that's had a major impact in some of our counties. Also, of course, looking at the impact of different kinds of poverty, for example, the kinds of poverty we see along the whole coastal area in ERW is very different from the poverty, perhaps, that we see within the Neath and Afan communities in the south of the region. So, it's about looking in more detail and we've now commissioned a piece of research to help us to prepare more effectively for the needs of individual children.

Simon Thomas: When we as a committee carried out an inquiry into this area—the link between children's attainment and deprivation—at the time, Ceredigion came in to give evidence. One of the things that were mentioned during that evidence and was reflected in the committee's report, was that Ceredigion undertook considerable work to follow a child as an individual and it could measure, in many areas, how that child was doing and what their achievements were across the curriculum, as it were. That was something that was shown as an example of good practice, bearing in mind that Ceredigion, of course, is the only education authority in Wales that achieved a level of excellence. Has the Ceredigion pattern been emulated and is it in use more widely

ar draws y consortiwm nawr?

across the consortium now?

[23] **Mr E. Evans:** Un datblygiad rŷm ni wedi'i wneud bellach yw bod pedwar sir—. Jest i atgoffa pobl o beth roeddem ni'n trafod ar y pryd, rŷm ni wedi datblygu system fewnol o fewn Ceredigion, sef canolfan athrawon sydd yn edrych ar berfformiad pob disgybl unigol, ac rŷm ni'n medru torri data perfformiad i lawr i lefel disgybl, neu cohortau bychain o fewn grŵp blwyddyn, neu beth bynnag rŷm ni'n moyn ei wneud. Mae'r system electronig honno'n fyw ym Mhowys, sir Gâr a sir Benfro, ac rŷm ni'n gweithio gydag Abertawe a Neath Port Talbot ar hyn o bryd er mwyn i'r system fynd yn fyw yn fanna.

Mr E. Evans: One development that we have seen take place is that there are now four counties—. Just to remind people, what we're discussing at the moment, we have developed an internal system within Ceredigion, which is a teacher centre that looks at the performance of each individual pupil, and we can break down performance data to the pupil level, or small cohorts within a year group, or whatever we want to do. That electronic system is now live in Powys, Carmarthenshire and Pembrokeshire, and we're working with Swansea and Neath Port Talbot at present to ensure that the system is also implemented there.

[24] Beth mae'r wybodaeth honno'n ei rhoi i ni yw darlun clir a phendant i dargedu ymyrraeth lle mae'r angen mwyaf. Felly, pan rŷm ni'n siarad aboutu gwerth am arian am fuddsoddiad i mewn i unrhyw system yn y dyfodol, beth mae'r system yn ein galluogi ni i wneud yw dweud, 'Hyn a hyn o arian sydd gennym ar gael i'r math yma o gefnogaeth', ac yn hytrach na mynd i roi tamaid i bawb, rŷm ni nawr yn medru dilyn y strategaeth sydd wedi profi ei bod yn llwyddo, a'i dargedu i le mae'r angen mwyaf yn ein rhanbarth ni. Rŷm ni'n gweld tystiolaeth glir iawn o fewn y data eleni fod y cynnydd sydd wedi digwydd—a'r enghraifft rŷch chi wedi'i rhoi—wedi codi'n sylweddol

What that information provides us with is a clear and decisive picture so that we can target the intervention where's it's needed most. So, when we're talking about the value for money of any future investment in a system, what the system enables us to do is to think, 'Well, we know that we have so much funding available for this kind of support', and rather than spreading that out too thinly, we can actually follow a strategy, which is a proven success, and target it where the need is greatest within our region. We see very clear evidence in this year's data that the progress that's been made—and the example that you've given—has been significant across our region because of that methodology.

iawn ar draws ein rhanbarth ni oherwydd y fethodoleg honno.

[25] **Simon Thomas:** Diolch am hynny. Fy nghwestiwn olaf ar y maes hwn yw: pa mor allweddol yw categorioedd ysgolion yn y ffordd rŷm chi'n darparu cymorth i ysgolion? Hynny yw, a ydych chi ond yn darparu cymorth i rai coch ac oren, a ydych chi'n amrywio neu a ydych chi'n edrych ar hanes yr ysgol? Beth yw'r fethodoleg rydych chi'n ei defnyddio ynghylch categorioedd?

[26] **Ms O'Connor:** Mae gennym ni yn y rhanbarth ysgol gymorth a her, sy'n fframwaith i'n holl waith ni wrth i ni roi cymorth a her i ysgolion dros y flwyddyn. Mae'r fframwaith hwnnw wedi bod yn weithredol yn ERW ers, byddwn i'n dweud, efallai—cyn fy amser i—dair neu bedair blynedd. Rŷm ni'n ei fireinio bob blwyddyn, wrth ddysgu a gwella'n gwaith. Rŷm ni wedi datblygu hwnnw nawr i fatisio gyda'r system gategoreiddio. Rwy'n credu, beth rŷm ni, ambell waith, yn anghofio, ar lefel genedlaethol ac yn rhanbarthol, yw mai modd i ddarparu cymorth i ysgolion wella yw'r system gategoreiddio, nid ffordd o labelu ysgolion yn negyddol.

[27] Rŷm ni wedi gallu adeiladu'r ffordd rŷm ni'n categorioedd ysgolion i sicrhau ein bod yn rhoi'r cymorth a her sydd eu hangen arnyn nhw. Wedyn, wrth edrych yn fanwl ar beth yw eu *entitlement* nhw i'r cymorth y maen nhw'n ei gael yn ôl y

Simon Thomas: Thank you for that. My final question on this area is: how crucial is the categorisation of schools in the way that you provide support for schools? That is, do you just provide support to the red and amber schools, do you vary it, or do you look at the history of the schools? What methodology are you using in relation to categorisation?

Ms O'Connor: Within the region, we have a school support and challenge, which aids us in providing support for schools, and challenging them, throughout the year. That framework has been operational in ERW since, I would say—perhaps before my time—three or four years. We develop it on an annual basis and we learn lessons and improve. We have actually matched that with the categorisation system. I think, what we occasionally forget, at a national and regional level, is that the categorisation system is a means of enabling schools to improve rather than a way of negatively labelling schools.

We have been able to build on the way that we categorise schools to ensure that we do actually provide the support and challenge that they need. In looking in detail at what their entitlement is to the support that they receive according to their

categori y maen nhw'n ei dderbyn, rŷm ni wedyn yn gallu tracio'n fanwl impact y cymorth rŷm ni wedi'i roi iddyn nhw—her yw e ambell waith—a'r gwahanol fathau o ymyraethau rŷm ni'n gallu'u derbyn dros gyfnod. Ond, rŷm ni nawr mewn sefyllfa gref, rwy'n teimlo, i dracio impact hynny. Fe fyddwn ni, maes o law, efallai'n gallu ateb eich cwestiwn chi'n fwy hyderus a dweud, 'Ydym, rŷm ni wedi gallu symud ysgolion ymlaen dros gyfnod, trwy'r broses honno o liw i liw, wrth iddyn nhw gael llai a llai o gymorth, ac i ddod yn fwy hyderus eu hunain', achos dyna'r nod. O greu system, rwy'n credu ei bod wedi bod yn gam mawr i ni'n genedlaethol i symud oddi wrth y system fandio. Rwy'n teimlo ein bod ni, fel pedwar rhanbarth, wedi cydweithio'n agos â'r Llywodraeth i wneud hynny er mwyn galluogi ysgol i gael y cymorth sydd ei angen arnynt dros gyfnod. Felly, mae hwnnw'n fodel llawer mwy positif wrth inni weithio tuag at system hunanwella ar draws y wlad.

09:45

[28] **Mr E. Evans:** Rwy'n credu mai'r prif neges gyda chategoreiddio yw bod y system categoreiddio yno i adnabod ffordd o gefnogi ysgolion. Efallai fod angen inni gael y neges yna allan yn llawer mwy clir yn genedlathol—mai system o adnabod yr angen i gefnogi a lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar bob ysgol yn unigol yn y system. Mae e hefyd yn ffordd inni ymddiried yn ein

category, we can then track in detail the impact of the support that we have provided—it may be challenge occasionally—and the different kinds of interventions over a period of time. But we're now, I think, in a strong position to track the impact of that. In due course, we may be able to answer your question more confidently and say, 'Yes, we have been able to progress schools over a period of time through that process as they move from one category to another, as they receive less and less support and become more confident themselves', because that is the aim. In creating a system, I think it's been a major step at a national level to move away from banding. I think that we, as four regions, have worked closely with the Government to do that in order to enable schools to receive the support that they need over a period of time. So, that's a far more positive model as we work towards a self-improvement system across the country.

Mr E. Evans: I think that the main message about categorisation is that the categorisation system is there to identify a way of supporting schools. Perhaps we need to get that message out much more clearly on a national basis—that it's a system of identifying the need for support and the level of support each school needs within that system. It's also a way for us to trust in our best

hysgolion gorau ni. Pan fyddwn ni'n cyfuno ysgolion i weithio mewn partneriaethau o ba fath bynnag, rydym ni'n ymddiried ynddyn nhw gan roi'r adnodd iddyn nhw i reoli ar eu liwt ei hunain. Mae hynny'n rhoi mwy o otonomi iddyn nhw i fod yn fwy creadigol yn y ffordd y maen nhw'n symud ymlaen, ac mae hynny'n gwobrwyo'r ysgolion gorau hefyd, drwy ddweud, 'Mae yna werth ichi anelu at fod yn ysgol mor llwyddiannus ag y medrwch chi fod, achos rŷm ni'n ymddiried ynoch chi i'n cynorthwyo ni i fod yn rhan o bartneriaeth i dynnu pob ysgol drwyddo.'

[29] **Simon Thomas:** Roeddwn i jest eisiau gofyn cwestiwn atodol ar hynny achos rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i ddeall ym mha ffordd rŷch chi'n sicrhau nad yw ysgolion sydd ar hyn o bryd yn cael eu gweld yn rhai llwyddiannus yn cael eu hamddifadu o gefnogaeth ac adnoddau dros gyfnod drwy switsio a rhoi cefnogaeth i ysgolion sydd yn goch ac oren ac ati. Mae'n amlwg na ddylai unrhyw ymdeimlad o wobrwyo methiant—dyna ffordd amrwd iawn o ddweud y peth, ond dyna beth sy'n digwydd os ŷch chi ddim yn ofalus—ddod yn rhan o'r system neu'r gyfundrefn. Felly, rydych chi'n hyderus bod yr ysgolion sydd yn llwyddo ar hyn o bryd hefyd yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i barhau i lwyddo.

[30] **Mr E. Evans:** Rwy'n credu bod y

schools. When we bring schools together to work in a partnership of whatever kind, we trust in them by giving them the resource to manage things for themselves. That gives them greater autonomy to be more creative in the way that they move forward, and that rewards the best schools as well, by saying, 'It's worth your aiming to be as successful a school as possible, because we trust in you to help us to be part of a partnership that brings on every school.'

Simon Thomas: I have a supplementary question on that, because I think it's important to understand how you ensure that schools that are currently seen as successful are not deprived of support and resources over a period of time by switching support to the red or amber schools. It's clear that any perception of rewarding failure—that's a very crude way of putting it, but that is what will happen if you aren't careful—should not become part of the system. So, are you confident that the schools that are succeeding now also get the necessary support to maintain that success?

Mr E. Evans: I think that the phrase

ffras y gwnaethoch chi ei defnyddio, 'gwobrwyo methiant'—rŷm ni wedi cael cytundeb yn rhanbarthol fod yn rhaid inni symud i ffwrdd o'r hen ffordd yna o ariannu ysgolion. Hynny yw, os ydy ysgol yn dangos methiant, nid o angenrheidrwydd yr ateb yw taflu mwy a mwy a mwy o arian atyn nhw. Y ffordd orau y gallaf i ei disgrifio yw bod ambell ysgol yn cael trafferth i jyglo cwpwl o beli yn yr awyr, a'r peth diwethaf rŷch chi'n moyn gwneud yw taflu rhagor atyn nhw. Beth sydd eisiau ei wneud yw rhoi'r adnodd i'r ysgolion hynny sydd yn llwyddo ac sydd yn medru dangos bod y gallu ganddyn nhw i symud nid yn unig ei sefydliad eu hunain ymlaen ond i symud sefydliadau eraill ymlaen, a rhoi'r berchnogaeth iddyn nhw.

that you used, 'rewarding failure'— we have had regional agreement that we need to move away from that old way of funding schools. That is, if a school shows signs of failing, the answer may not necessarily be to throw more and more money at them. The best way that I have of describing it is that some schools have difficulty with juggling a few balls in the air, and the last thing you want to do is to throw more balls at them. What needs to be done is to give the resource to those schools that have succeeded and that have shown that they have the ability not only to move their own organisation forward, but to move other organisations forward, and to give them ownership.

[31] Mae'r fframwaith arolygu sydd gan Estyn hefyd yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r ffordd yna o weithio, achos os ydy ysgol yn gallu dangos ei bod yn arwain sector, mae yna werth i'r ysgolion wedyn i dynnu ysgolion cyfagos ymlaen gyda nhw yn y ffordd yma. Felly, beth ŷm ni wedi cytuno fel rhanbarth yw peidio ariannu craidd y broblem, gan ddweud, 'Reit, cewch chi'r adnodd.' Rŷm ni'n rhoi'r adnodd i'r partner sydd yn mynd i allu eu cefnogi nhw, ac mae hwnnw'n feddylfryd newydd i'r rhanbarth ond mae'n talu ar ei ganfed.

The Estyn inspection framework also acknowledges and rewards that way of working, because if a school can show that it is sector leading, then there is a value for schools to draw neighbouring schools with them and bring them forward in the same way. So, what we have agreed as a region is to not fund the root of the problem, by saying, 'Right, you'll get the resource.' We give the resource to the partner that is going to be able to support them, and that is a new mindset for the region, but we are seeing it really pay off.

[32] **David Rees:** Keith Davies has a small supplementary.

[33] **Keith Davies:** Diolch, **Keith Davies:** Thank you, Chair. I read

Gadeirydd. Roeddwn i'n darllen yn y papur ddoe, a dweud y gwir, am danberfformio, mewn ffordd. Nid wyf yn gwybod os gwelsoch chi'r adroddiad ond roedd e'n cymharu ysgolion cyfrwng Cymraeg ag ysgolion eraill, ac roedd e'n dweud amser oeddech chi'n edrych ar y data—achos roeddech chi'n sôn bod data gennych chi ar y plant—ac yn edrych ar ganran y plant sy'n cael bwyd am ddim mewn ysgolion—. So, os ych chi'n cymharu'r ysgolion Saesneg â rhyw ganran â'r ysgolion cyfrwng Cymraeg â'r un ganran, mae'r ysgolion Cymraeg yn tanberfformio. A oeddech chi'n gwybod hynny ac a ydych chi'n edrych ar—? Beth ym ni'n sôn am yw gwella ysgolion yn y pen draw drwy edrych ar beth mae plant yn ei wneud. Yn ERW, a oeddech chi'n sylweddoli beth oedd y papur yn ei ddweud ddoe: bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn tanberfformio o'u cymharu â'r ysgolion Saesneg?

[34] **Ms O'Connor:** Rŷm ni yn ymwybodol o danberfformiad unrhyw ysgol ac yn aml rŷm ni yn ymwybodol bod yna rai ysgolion sydd ar yr olwg gyntaf yn edrych fel petasen nhw'n perfformio yn gymharol dda, ond, wrth eu cymharu nhw â'r ysgolion gorau yn yr un bandiau, eu bod nhw felly yn tanberfformio. Rŷm ni yn fwy na pharod ac wedi, yn y gorffennol, bod yn bod yn barod i ymgymryd â'r her yna. Rŷm ni wedi gweld, o fewn y rhanbarth, rhai ysgolion sy'n cwmpo i mewn i'r categori yna ych chi'n

in the newspaper yesterday about underperformance, in a way. I don't know whether you saw that particular article, but it compared Welsh-medium schools with other schools, and it stated that when you looked at the data—because you mentioned that you have data on the children—and looked at the percentage of children in receipt of free school meals—. So, if you compare the English-medium schools and the Welsh-medium schools with the same percentage, the Welsh-medium schools are underperforming. Were you aware of that and are you looking at—? What we're talking about here is school improvement, ultimately, by looking at pupil performance. In ERW, did you realise what the paper reported yesterday: that Welsh-medium schools were underperforming compared with English-medium schools?

Ms O'Connor: We are aware of the underperformance of any school and, quite often, we're aware that there are some schools that, on first sight, appear to be performing comparatively well, but when you compare them with the best schools in the same bands, you realise that they are underperforming. We are more than ready and have, in the past, been prepared to get to grips with that challenge. We have seen, within the region, some schools that fall into that category that you

disgrifio ac rŷm ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn rhai ohonyn nhw yn y canlyniadau sydd newydd ddod. Rwy'n credu bod hynny oherwydd ein bod ni wedi gallu eu paru nhw gydag ysgolion eraill, ac efallai nid ysgolion yn yr un sector yn draddodiadol. Mae hynny'n rhywbeth, rwy'n credu, sy'n gryfder i ni fel rhanbarth, a hefyd, ar draws Cymru, rŷm ni wedi bod yn gweithio gyda rhanbarthau eraill er mwyn rhannu arfer gorau ar draws mwy nag un rhanbarth. Mae hynny'n galluogi ysgolion sydd efallai wedi bod mewn sefyllfa fwy cysurus, yn cydweithio â phobl tebyg iddynt, i gydweithio â phobl eraill, ac mae hynny'n agor drysau wrth rannu profiad ehangach. Rwy'n credu bod y system hunanwella yn ein galluogi i wneud hynny'n well.

[35] **Mr E. Evans:** Yr unig beth y byddwn i'n ei ddweud yn ychwanegol i'r hyn y mae Betsan newydd ei ddweud yw bod yn rhaid inni hefyd edrych ar ddefnydd y data sydd yn yr adroddiad, achos yn yr ysgolion yr ydych newydd eu disgrifio a'u categoreiddio, yn aml iawn mae'r gwir niferoedd yn fach iawn, lle mae'r canran yn awgrymu bod yna dipyn mwy. Oherwydd hynny, ambell waith pan mae'r niferoedd mor fach—. Mae yna enghreifftiau gennym mewn ysgolion unigol—mae yna un gen i yn benodol yng Ngheredigion lle gallaf ddweud wrthy, ydy, mae'r perfformiad yn edrych yn isel, ond mae'r garfan mor fach, mae dros dri

describe and we have seen significant progress in some of them in the results that have just come out. I think that that is because we've been able to pair them with other schools, and perhaps these are not schools in the same sector traditionally. I think that that is a strength of ours as a region, and also, nationally, we have been working with other regions in order to share best practice across more than one region. That enables schools that have perhaps been in a comfortable position, working with similar people, to work with other people, and that opens doors through sharing a broader experience. I think the self-improvement system has enabled us to do that better.

Mr E. Evans: The only thing I would add to Betsan's comments is that we must also look at the use of the data in that particular report, because in the schools that you've just described, very often the real numbers involved are very small, where the percentage figure suggests that it's a lot greater. As a result of that, when the numbers are so very small—. We do have examples in individual schools—I have a specific example in Ceredigion where I can tell you, yes, the performance looks to be poor, but the cohort involved is so small, over three quarters of those children are on the special needs register. It sounds terrible when you

chwarter y plant yna ar y gofrestr anghenion arbennig. Mae'n swnio'n erchyll pan ych chi'n rhoi canrannau, nes eich bod yn troi rownd a dweud mai dim ond pum plentyn ydynt. So, wrth ddadansoddi'r data yma, mae'n bwysig cael y darlun cyd-destunol i fynd ochr yn ochr â'r hyn y mae'r ganran yn ei ddweud.

give a percentage, until you turn round and say that that only amounts to five children. So, it's important to have the context to go with what the percentage tells you.

[36] **Keith Davies:** Diolch.

Keith Davies: Thanks.

[37] **David Rees:** Angela.

[38] **Angela Burns:** I'd like to flesh out a little bit more on the questions that Simon was asking you. So, how exactly do you go about challenging what used to be called a coasting school?

[39] **Ms O'Connor:** Each school in our region gets the same core entitlement to two core visits a year, as illustrated in the report that I mentioned earlier. So, we would treat every school equally in terms of that core entitlement. Then, depending on their bespoke needs, strengths and shortcomings, we would provide them with a bespoke package of support, and then following that support, that would be how they would be access the necessary challenge improvement—whatever they would need. It may be a tool that we provide them with, or a resource; it could be a challenge from another school, depending, obviously, on the exact situation. It can often be that some schools that are seen as coasting, they've been coasting for some time, and there are cultural issues within the school, and we have to look under the stone and look quite carefully at how we then unpick those and provide the school with a useful plan for improvement.

[40] **Mr E. Evans:** What's fortunate for us within the school is that we've got an agreement with the heads about sharing data, and that's a very powerful agreement to have, because, collectively as a group, they are more than happy for the challenge advice people to go in, and show them, 'Right, your current performance for your school looks like this, and this is the profile of performance for your school. This school is very similar to yours within the region and this is what their profile is, and as you can see, there are no major differences between you, and yet their trajectory of performance is greater than yours.' Being able to highlight those kind of shortcomings, and identify

the fact that they are coasting—we don't use the word 'coasting', but what we do illustrate to them is that there is headroom for improvement. Being able to have that dialogue, again, I think is down to the partnership that we've got with our heads, and the mutual trust and respect. We wouldn't take those data outside of that arena and publicly run those things, but having that agreement internally to be able to say to one another, 'This is just not good enough, because compared to this neighbouring school, you should be performing like this', gives a very powerful tool for us to be able to engage in that kind of dialogue. Over a period of time, that mutual trust and respect has grown within the region and I think it's paying dividends, especially, as I said at the beginning, with our current-year performance data, which are unverified at the moment, but are looking pretty healthy.

[41] **Angela Burns:** I think that's why I'm challenging you so hard on this point—it was a very bullish statement with which you opened up the evidence session, saying that you believe that the improvement in grades was pretty much entirely down to the working of ERW. I will say that I haven't been out to a school in the past six months for various reasons. However, before that I visited an awful lot of schools within the region, and I have to say there was a relatively significant number of headteachers who said they'd had either little or no interface at all with ERW, particularly in the primary sector. So, my questions are: do you treat primary and secondary equally? And this wonderful methodology that you've been speaking of, this system, which is obviously in place now—how long has that been in place? As I say, this time last year, there were an awful lot of headteachers who were telling me that they hadn't had a visit from ERW, hadn't had any discussions or anything like that. With one teacher or two teachers, you might just say, 'Oh, well, that's them being a bit tricky', but it was more than just a few.

[42] **Mr E. Evans:** I think part of the issue that we had at the time was the way that the region is constituted; we have a collective agreement between all six authorities and we have 58 full-time equivalent challenge advisers employed across the region. Betsan made reference earlier to the huge geographical area we cover collectively as a body, and what we deliberately and consciously decided upon was to create hubs rather than a single regional approach, because we didn't want our challenge advisers spending three or four hours travelling in one direction to go to one school. They'd spend more time in the car than they would—. In order to do that, we've broken it down into locally employed individuals working over a regional strategy. The perception out there then was that, because they were locally employed: 'Yes, we've had our local visitors coming in from the local

authority; we haven't had anybody from ERW yet', without realising that they're one and the same people. For schools challenge, the challenge adviser team are the ERW team, but in some schools it was just a perception about understanding who that person was and what badge they were wearing.

[43] It was significantly to do with getting people to understand what ERW is all about. Betsan and the team have spent a huge amount of time making sure that there's clarity around that in the region. I would hope that that message wouldn't be the same message if you went out to schools today.

[44] **Ms O'Connor:** I think that, in the past 12 months, we've done a lot of work on communication, and we've brought about system change in the way we support schools as well as our communication improving at the same time. So, I think you should see now that they would recognise across all our schools that they understand that there is no duplication; there are no local authority advisory services and ERW—that we're all one and the same. I think that they can now see that they are part of that co-operative-type movement, and that heads are part of that as well. Sometimes, some of the elected members use the term 'the ERW family'. We're all in there with the same aim, which is to raise standards for children—that's the bottom line for us all—and that we're all working towards this common goal under this single strategy that Eifion pointed to earlier.

[45] **Angela Burns:** Given the size of the region, do you actually think it is too big? Do you think we should have five regional consortia rather than four? I know that there's at least one other regional consortium that has an enormous geographical spread. Is it unwieldy? You know, is it very unwieldy trying to manage that distance?

Ms O'Connor: In ERW, of course, we'd be looking to another school that is strong in the particular department that we are looking for, and we would seek a department perhaps—. We wouldn't go to a department, take a strong teacher out and leave them; we would look for a department where there was strength and depth and we would enable them to share their expertise. So, again, we're keeping expertise in the system and developing leaders.

[111] **Mr E. Evans:** Achos mae hynny'n mynd yn ôl i'r pwynt cyntaf y gofynnoch chi amdano, Keith, sef, pan oeddem ni'n siarad aboutu'r arian dirprwyedig i'r ysgolion er mwyn rhyddhau'r unigolyn yna i fynd. Yn hytrach na'n bod ni'n cyflogi tîm yn ganolog—swît enfawr o bobl—rŷm ni'n rhoi arian i'r ysgol i fedru rhyddhau'r person am gyfnod wedyn. So, mae'r ysgol yn elwa ar yr arian yn uniongyrchol yn hytrach na bod y pot yn y canol yn tyfu.

Mr E. Evans: That goes back to the first point you asked about, Keith, because we were talking about the money that is given to schools to free up that member of staff to go in. Rather than employing a team centrally—a large suite of people—we give money to the school to be able to free up the person for a period of time. So, the school benefits from money directly instead of the pot in the centre growing larger.

[112] **Keith Davies:** Nid yw'r ysgol yn colli hynny.

Keith Davies: The school doesn't lose that.

[113] **Mr E. Evans:** Yr—

Mr E. Evans: The—

[114] **Keith Davies:** Ddim yn colli, maen nhw.

Keith Davies: They don't lose it.

[115] **Mr E. Evans:** Ddim yn colli, ie.

Mr E. Evans: Yes, that's right.

[116] **Ms O'Connor:** Ond, hefyd, mae yna—

Ms O'Connor: But, also, there is—

[117] **David Rees:** We've got to move on, because there are other questions. Suzy.

[118] **Suzy Davies:** For mine, probably a short answer would be easier. Let's start with the Wales Audit Office and then comment on the national model for regional working, and how it's being administered. But, before I ask my one question, can you tell me whether the sort of uncertainty about the future look of local government has had any effect—is responsible in any way for the criticisms drawn out in that Wales Audit Office report? Has that caused ERW any problems?

[119] **Mr E. Evans:** No, because of the way we've been constituted. I think it's really important that, because we are a joint committee-run organisation, there's a joint commitment from the six authorities to work in this way. And,

as I said, it's a clear vision, a clear focus on what we want to achieve—we want to improve learner outcomes. We can do that most effectively working in a collaborative approach to this. So, the commitment to work in that particular way, it would be a problem if one of the six authorities said, 'We don't want to work here—that's not our philosophy'; that would cause a problem for us, but local government reorganisation doesn't affect the way that ERW thinks at the moment.

[120] **Suzy Davies:** Okay, that's great. My main question is this one. You mentioned earlier in answer to Aled what you considered to be the weaknesses in ERW at the moment. But one of the main criticisms of the WAO report was that the national model hasn't led to the development of sufficiently collaborative relationships, despite all the good work that goes on. What do you think are the reasons for that, and were you able to tell the Government in its refreshment process why you think collaboration is still a problem?

[121] **Mr E. Evans:** I don't think collaboration is the problem; I think it goes back to the point I made earlier: it's around the narrow definitive description of school improvement. School improvement has to be something that encompasses all learners. It has to look at children with additional learning needs; it has to look at the inclusion issues. Those elements of it sit outside the national model arrangements at the moment. I think that bringing those in and embracing those as a collaborative approach as well would certainly impact on better learner outcomes in the long term.

[122] **Suzy Davies:** And could you tell the Government that when they were refreshing the model?

[123] **Mr E. Evans:** Yes.

[124] **Suzy Davies:** Okay. Thank you.

[125] **David Rees:** Bethan.

[126] **Bethan Jenkins:** Rwyf eisiau gofyn am ymgynghori â llywodraethwyr. Rydym wedi cael tystiolaeth yn ôl yn dweud bod yna ddiffyg cyfathrebu â nhw ynglŷn â'r gwaith rydych chi'n ei wneud fel **Bethan Jenkins:** I want to talk about engagement with governors. We've received evidence stating that there's a lack of communication with governors about the work that you carry out as consortia. Is this true of

consortia. A ydy hynny'n wir ohonoch chi yn benodol, neu a ydych chi yn gweithio gyda nhw fel sector?

you specifically as a consortium, or would you say that you do work with them as a sector?

[127] **Ms O'Connor:** Llywodraethwyr ysgolion?

Ms O'Connor: Are you talking about school governors?

[128] **Bethan Jenkins:** Llywodraethwyr ysgolion, ie.

Bethan Jenkins: Yes.

[129] **Ms O'Connor:** Ydym. Mae gyda ni fwrdd llywodraethwyr sy'n dod at ei gilydd; maen nhw'n cynrychioli llywodraethwyr ar draws y rhanbarth. Rwy'n cwrdd â nhw bob chwarter, ac maen nhw'n dod ag unrhyw faterion sydd gyda nhw ger bron, sy'n adeiladu wedyn, wrth gwrs, ac yn bwydo ein strategaethau ni a bwydo ein cynllun busnes ni. Wedyn, rwy'n rhoi mewnbwn iddyn nhw ar ba strategaethau y dylai nhw fod yn gweld yn digwydd yn eu hysgolion nhw. Felly, maen nhw yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn i ni alluogi ni i wella ein hunan-asesu, achos os nad ydynt yn gweld *impact* ein gwaith ni yn eu hysgolion nhw, maen nhw, wrth gwrs, yn unionsyth yn gallu dweud hynny wrthym ni. Felly, mae hynny'n rhan bwysig o'u rôl nhw fel bwrdd ymgynghorol o fewn ein strwythur llywodraethu ni.

Ms O'Connor: Yes. We do have a board of governors that does come together; they represent governors across the region. I meet with them on a quarterly basis, and they raise any issues that they have, which then feeds into our strategies and our business plan. Then, I give them some input on what strategies they should be seeing implemented in their schools. So, they can be very useful in terms of enabling us to enhance our self-evaluation, because if they don't see the impact of our work in their schools, they can, of course, immediately report that back to us. So, that's an important part of their role as a consultative board within our governance structure.

[130] Yn ogystal â hynny, wrth gwrs, o dan y model cenedlaethol, rydym ni nawr wedi cymryd cefnogaeth i lywodraethwyr o dan adain ERW, fel petai. Ac rydym ni wedi gallu edrych eto ar yr arfer gorau roedd gennym ni yn y chwech awdurdod unigol, ac

In addition to that, under the national model, we have now taken support for governors under ERW's auspices, as it were. And we have again been able to look at the best practice that we had within the six authorities, and roll out that best practice, because

edrych ar ledaenu'r arfer yna, achos beth sydd gyda ni yw patrwm lle mae cefnogaeth i lywodraethwyr wedi bod yn aml yn rhywbeth clerigol, ac nid yw wedi ffocysu ar ddeilliannau i ddysgwyr ac arweinyddiaeth ysgol. Felly, mae angen yr un her ar ein llywodraethwyr ni ag sydd ar ein penaethiaid ni. Felly, rŷm ni'n wedi bod yn edrych ar sut y gallwn ailstrwythuro'r gefnogaeth yna rydym yn ei rhoi i lywodraethwyr—codi ei statws e a chreu e fel rhan o'n model craidd ni ar yr ysgol a gymerodd yr her yma. Mae hynny'n rhywbeth rydym ond newydd ei ddechrau nawr ym mis Medi, felly mae'n *hot off the press*, fel petai.

[131] **Bethan Jenkins:** Byddai'n ddiddorol gwybod sut mae hynny'n datblygu wedyn yn y dyfodol. Y cwestiwn arall sydd gen i yw ynglŷn ag undebau llafur. Mae'r NASUWT yn dweud bod ERW yn siarad â'r undebau llafur, ond weithiau mae yna drafodaethau anodd. Ond beth yw'ch barn chi ynglŷn â gweithio gyda'r sector yna, achos mae yna enghreifftiau, wrth gwrs—er bod yna gytundeb cenedlaethol neu strwythur cenedlaethol, nad yw'r consortia eraill, yn ôl y peth maen nhw yn ei ddweud, yn gweithio gyda undebau llafur. A ydych chi'n siarad â consortia eraill ynglŷn a sut y gallan nhw fod yn gweithio gyda'r undebau llafur, neu a ydych ddim yn rhannu gwybodaeth o ran hynny o beth?

[132] **Mr E. Evans:** Mae yna fforwm

what we have is a pattern where support for governors has often been simply a clerical issue, and hasn't focused on learner outcomes and school leadership. Therefore, we need the same challenge for our governors as we pose to our schools leaders. So, we've been looking at how we can restructure that support that we provide to governors to raise its status and to include it as part of our core model for the school taking up this challenge. That's hot off the press, as it were, because it's something that we only started in September.

Bethan Jenkins: It will be interesting to find out how that works out in the future. My other question is in relation to trade unions. The NASUWT has stated that ERW does speak to the trade unions, but sometimes they can be difficult discussions. But what is your view on working with that sector, because there are examples, of course—although there is a national agreement or a national structure, other consortia, according to what they're saying, are not working with the trade unions. Are you in discussions with other consortia about how they could be working with the trade unions, or do you not share information in that regard?

Mr E. Evans: There is a national

genedlaethol mae gweision sifil y Llywodraeth yn ei gynnal, ac rŷm ni'n yn rhannu ein harfer da yn y fforwm yna. Felly, mae'r syniad wedi cael ei rannu ar draws y bwrdd.

forum that Welsh Government civil servants support, and we share good practice within that forum. So, the ideas have been shared across the board.

10:30

[133] Mae'r cydweithio rydym yn ei wneud ar draws y rhanbarth â'r undebau—rydym yn delio â pholisïau anodd, sydd yn amlwg yn mynd i greu lefel o her: tâl ac amodau athrawon, er enghraifft, yn un a wnaeth greu tipyn o gynnwrf rhyngom ni a'r undebau fel rhanbarth. Rydym ni'n cydnabod y pwynt a wnaeth Keith: mae'r cyfrifoldeb statudol dros addysg yn gorwedd gyda'r awdurdod unigol, a lle y byddem ni'n gorfod mynd drwy brosesau democrataidd lleol, mae hynny'n parhau i ddigwydd. Ond y peth rydym yn ceisio ei gyflawni wrth gydweithio â'r undebau yw lleihau'r baich gwaith ar draws y 22 awdurdod, mewn ffordd. Achos, os allwn ni gael cytundeb mewn un cyfarfod ar un polisi, mae hynny'n osgoi gorfod cael yr un drafodaeth 22 o weithiau mewn awdurdodau ledled Cymru. Mae'r undebau, yn gyffredinol, yn agored i'r math yna o drafodaeth. Mae'n creu tensiwn, wrth gwrs, pan nad ydym yn gallu cytuno. Pan fo elfen o unrhyw bolisi sydd yn achosi gwrthdaro, dyna pryd mae problemau. Ond mae hynny'n wir am unrhyw drafodaeth gyda'r undebau.

The collaboration that we undertake across the region with the unions—we're dealing with difficult policies, which clearly are going to pose some challenges: teachers' pay and conditions, for example, is one that caused some disagreement between ourselves and the unions as a region. We recognise the point Keith made: the statutory responsibility for education lies with the individual authorities, and where we need to go through the local democratic processes, that continues to happen. But what we're trying to achieve by working with the unions is to reduce the workload across the 22 authorities, in a way. Because, if we can get agreement in one meeting on one policy, that negates the need to have that same conversation 22 times in authorities across the whole of Wales. Generally speaking, the unions are open to that kind of discussion and negotiation. It does create tensions, of course, when we're unable to reach agreement. When there's an element of policy that causes conflict, that's when problems arise. But that's true of any discussion or negotiation with the unions.

[134] **Bethan Jenkins:** Ond, i gymryd y mater hwnnw ymlaen, os ydych chi'n mynd i fod yn dechrau trafod materion nad ydynt yn gyfrifoldebau i'r consortia, ble fyddwch yn stopio? Gallech ddechrau trafod pethau eraill nad ydynt o fewn eich cyfrifoldebau chi. Rwy'n credu mai dyna'r peth y mae'r undebau yn ei ddweud. Os nad yw'r cyfrifoldeb gyda chi, pam ydych chi wedyn yn cymryd arnoch i wneud hynny?

[135] **Mr E. Evans:** Y peth rydym wedi'i wneud yw gwneud yn siŵr bod gennym fandad gan yr awdurdodau unigol i siarad ar eu rhan mewn fforwm rhanbarthol. Nid ydym byth yn mynd ag unrhyw beth i unrhyw fforwm rhanbarthol os nad oes gennym fandad gwleidyddol gan yr awdurdodau unigol i siarad ar eu rhan. Y peth arall rydym ni'n ei wneud yn y fforymau hynny yw gwneud yn siŵr bod yna gynrychiolaeth o'r awdurdodau unigol yna yn bresennol hefyd. Nid trafodaeth yn unig rhwng yr undebau a mi yw e. Mae yna griw sylweddol o bobl yn eistedd rownd y ford sy'n cynrychioli pob awdurdod sydd wedi rhoi'r mandad gwleidyddol yna i fedru ymgymryd â'r drafodaeth ar y lefel ranbarthol.

[136] **Bethan Jenkins:** Mae'r cwestiwn olaf sydd gen i ynglŷn â'r peth yr ydych chi wedi dweud yn gynharach ynglŷn â materion anghenion arbennig, a'r bobl sydd yn y sector *looked-after children*. Yn

Bethan Jenkins: But, to take that issue forward a little, if you're going to be starting to discuss issues that are not the consortia's responsibility, where would you stop? You could start to discuss other issues that are not your responsibility. I think that's what the unions are saying. If you don't have responsibility for something, why are you therefore taking it on?

Mr E. Evans: What we've done is ensure that we have a mandate from the individual authorities to speak on their behalf in a regional forum. We would never take anything to any regional forum if we didn't have a political mandate from the individual authorities to speak on their behalf. The other thing we do in those fora is to ensure that there is representation from the individual authorities in attendance also. It's not just a discussion between myself and the unions. There is a significant group of people around the table who represent each and every authority that have given that political mandate to undertake that discussion at the regional level.

Bethan Jenkins: My final question is about something that you said earlier in relation to special needs, and people in the looked-after children sector. There are, obviously, responsibilities that are shared

amlwg, mae yna groes-gyfrifoldebau gan y awdurdodau lleol. Beth ydych yn ei feddwl ynglŷn â hynny? A all fod newid o ran sut y mae hynny'n cael ei reoli? Ai dyna pam yr ydych wedi fflagio hynny i fyny?

[137] **Mr E. Evans:** Rwy'n credu mai'r peth yr ydym yn trio ei ddangos yw—. O ran y trothwyon perfformiad plant, hwyr neu hwyrach, unwaith yr ŷm ni'n cyrraedd rhyw fan arbennig, bydd yn anorfod ein bod ni'n dechrau croesi drwyddo—mae yna derm Saesneg, '*break through the glass ceiling*'—o ran perfformiad plant. Mae yna nenfwd ffug i gael, ac mae'n anorfod, os ydym ni'n mynd i godi'r trothwyon yn uwch ac yn uwch ac yn uwch, bydd yn rhaid inni gynnwys y plant hynny yn yr hafaliad. Felly, mae'n rhaid cael strategaethau cyson ar draws y rhanbarthau er mwyn rhoi'r gefnogaeth yna i hyrwyddo'r gwaith sy'n digwydd yn yr awdurdodau unigol.

[138] **Bethan Jenkins:** A ydyn nhw'n anghyson ar hyn o bryd, felly?

[139] **Mr E. Evans:** Mae bob awdurdod yn gyfrifol am hynny yn annibynnol ar y foment. Y peth rŷm ni'n trio ei wneud yw ychwanegu fe at waith ERW er mwyn ein bod ni'n gallu cael gwell cysondeb ar draws y rhanbarth. Roeddech yn siarad am blant 'LAC' yn benodol: wel, wrth inni greu cydbwyllgor fan hyn, mae hynny wedi agor drysau cyfathrebu nad oeddent yn agos i fod mor effeithiol

across the local authorities. What do you think about that? Could there be a change in how that is managed? Is that why you've flagged that up?

Mr E. Evans: I think that what we're trying to show is—. In terms of the pupil performance thresholds, at some point, once we reach a particular level, it will be inevitable that we start to break through—there's an English term, 'break through the glass ceiling'—in terms of pupil performance. There is a glass ceiling, and it is inevitable, if we're going to continually raise those thresholds, that we have to include those children in the equation. So, we do have to have consistent strategies across the regions in order to provide that support to promote the work that's going on within the individual authorities.

Bethan Jenkins: Are they inconsistent at present, then?

Mr E. Evans: Every authority is responsible for that independently at present. What we're trying to do is add it to the work of ERW so that we can get better consistency across the region. You mentioned looked-after children specifically: well, as we've created a joint committee, that has opened doors to communication that wasn't anywhere near as effective in the past. We are now able to speak to

yn y gorffennol. Nawr, bellach, rydym yn medru siarad â'n cymdogion yn hollol agored mewn unrhyw gyd-destun, ac rwy'n credu bod y berthynas yn tyfu ac yn gwella yn gyson oherwydd hynny.

[140] **Bethan Jenkins:** Diolch.

Bethan Jenkins: Thank you.

[141] **David Rees:** Thank you for that. We've come to the end of the time allocated to us. We very much appreciate the evidence you've given us, and the information. You will receive a copy of the transcript for any factual inaccuracies. Please, if there are any, let the clerks know as soon as possible. So, once again, thank you very much for your attendance this morning—very helpful.

[142] **Mr E. Evans:** Diolch yn fawr.

[143] **Ms O'Connor:** Diolch.

[144] **David Rees:** I suggest that we have a five-minute break, and we can commence the next session at 10.40 a.m.

*Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 10:34 a 10:43.
The meeting adjourned between 10:34 and 10:43.*

**Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol—Gwasanaeth
Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)
Discussion with Regional Education Consortia—Regional School
Effectiveness and Improvement Service for North Wales (GwE)**

[145] **David Rees:** Can I welcome Members and the public back to this morning's session of the Children, Young People and Education Committee? We move into our next item, continuing our inquiry looking at regional consortia. Can I welcome Huw Foster Evans, managing director of GwE, and Ian Budd, the director of north Wales for GwE—the consortia representative for north Wales? Welcome and thank you for the written paper. Clearly, there are some questions we wish to pursue and we'll move into the questions straight away and Aled Roberts will start.

[146] **Mr Budd:** If I may, Chair, thank you for the introduction. The last time I was before this committee, it was as chair of the Association of Directors of Education in Wales. Since then, I have moved on to lead director role in north Wales, as well as being the ongoing chief education officer in Flintshire.

[147] I was asked very specifically to offer you an apology this morning from Councillor Eryl Williams, our lead member in north Wales. Unfortunately, he has to attend a major meeting in Denbighshire this morning.

[148] **David Rees:** Okay. It seems that most of our councillors are attending major meetings this morning. Thank you for that, anyway. It is noted. Aled.

[149] **Aled Roberts:** Diolch. Bore da. **Aled Roberts:** Thank you. Good morning.

[150] **Mr H. Evans:** Bore da.

[151] **Mr Budd:** Bore da.

10:45

[152] **Aled Roberts:** Rwyf am eich cyfeirio chi, yn y lle cyntaf, at adroddiad Estyn. Mae hwnnw'n cydnabod bod perfformiad yn gyson uwch yn ardal GwE ac ERW nag yn y rhanbarthau eraill. Ond, o fewn tystiolaeth sydd wedi cael ei rhoi i ni gan ERW, mae'n ymddangos nad yw'r cynnydd yn GwE, yn arbennig, gymaint na chystal ag o fewn yr ardaloedd eraill. Felly, a oes gennych chi unrhyw sylw yn y lle cyntaf ar y diffyg cynnydd yma o ran gwella perfformiad ysgolion?

Aled Roberts: I want to refer you, in the first instance, to Estyn's report. That acknowledges that performance was consistently higher in the GwE and ERW regions than in the other regions. But, within the evidence that has been submitted to us by ERW, it appears that the progress in GwE in particular is not as good as within the other regions. So, could you comment on the lack of progress in terms of school improvement?

[153] **Mr H. Evans:** Diolch yn fawr. I fod yn eglur am y data rydym yn cyfeirio ato fan hyn, rydym yn cyfeirio at ddata dros dro cyfnod allweddol 4. Mae'r patrwm yn wahanol pan rydych

Mr H. Evans: Thank you very much. Just to be clear on the data that we're referring to, we're referring to pro tem data for key stage 4. The pattern's different when you look at

yn edrych ar y cyfnod sylfaenol—cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae'r data rwy'n cymryd eich bod chi'n cyfeirio ato yn cyfeirio at y trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg, sef data dros dro sydd eto i gael ei gadarnhau. Yn amlwg, mi fydd yna gymariaethau yn cael eu gwneud pan fydd y data hwnnw yn derfynol ac yn llawn, ac y byddwn yn sicr fod pawb wedi cael eu cynnwys.

[154] Fodd bynnag, buaswn i yn dweud a buaswn i yn cytuno, er bod yna gynnydd wedi bod yn ardal gogledd Cymru eleni yn y dangosydd arbennig rydych yn cyfeirio ato—ac mae hynny felly yn gosod y rhanbarth ar ei berfformiad uchaf erioed—mae cyfartaledd y cynnydd dros y cyfnod i mi eleni yn siomedig, ac mi fyddwn i'n cytuno efo hynny. Ac er bod y dangosydd ar ei uchaf, oherwydd nad yw'r cynnydd wedi digwydd efallai mor gyflym â mewn rhai rhanbarthau eraill, byddwn yn cydnabod efallai bod yna rai rhanbarthau yn cychwyn o sylfaen wahanol o ran gwneud y cynnydd hwnnw. Ond, mi fyddwn i'n dweud fy mod i'n bersonol ac ar ran tîm GwE yn siomedig efo cyfradd y cynnydd yn 2015 mewn un flwyddyn.

[155] **Aled Roberts:** Ac er mwyn i ni ddeall y gwahanol drefniadau, rydym yn ymwybodol bod yna fodel cenedlaethol, ond mae'n ymddangos o beth rydym wedi'i glywed eisoes bod y trefniadau yn wahanol iawn ar

the foundation phase—key stage 2 and key stage 3. The data you're referring to refer to the level 2 threshold, including Welsh, English and maths, where that data is yet to be validated. Clearly, comparisons will be made when that data is full and comprehensively completed.

But, I would say that although there has been progress made in the north Wales region this year in the particular indicator that you refer to—and that therefore places the region at its highest performance level ever—the average level of progress over the period for me this year is disappointing, and I would agree with that. And although the indicator is at a peak, because the progress hasn't been made as quickly as in some other areas, I would acknowledge that perhaps there are some regions that are starting from a different baseline in making that progress. But, I would say that I personally and on behalf of the GwE team am disappointed with the rate of progress for 2015 in that single year.

Aled Roberts: And in order for us to understand the varying arrangements, we're aware that there's a national model, but it appears from what we've heard already that the arrangements vary

draws y rhanbarthau. O ran y ffordd rydych chi'n gweithredu, a allwch chi egluro wrthym ni faint o staff llawn amser sydd gennych chi, faint o staff sydd wedi secondio, a oes gennych chi broblemau ynglŷn â recriwtio ac a oes yna lot o swyddi gwag, jest er mwyn i ni gael rhyw fath o flas o'r sefyllfa rydych chi ynnddi ar hyn o bryd?

[156] **Mr H. Evans:** Océ. Os caf yn gyntaf egluro, mae gennym gyfran o staff sydd yn llawn amser, cyfran sy'n rhan amser a chyfran ar secondiad, ac yn y blaen. Os ydym yn cyfeirio at staff sydd wedi cael eu hariannu o'r pot canolog yn hytrach nag o swyddi dros dro sy'n dod drwy grantiau—mae'n bwysig ein bod ni'n cymharu tebyg efo'i debyg yn y fan hyn—mae gennym ni 30 o ymgynghorwyr her llawn amser o ran swyddi llawn amser, ond mae cyfran o'r rheini wedyn yn swyddi rhannu, felly yn swyddi rhan amser. Mae yna gyfran o'r rheini wedyn sydd yn dod ar secondiadau o ysgolion ac ati, ac mae hynny yn caniatáu i ni gael yr amrywiaeth profiad rydym ei angen o fewn y gwasanaeth, yn ogystal â rhywfaint o sefydlogrwydd yn y tîm canolog hefyd.

[157] Tu hwnt i hynny, wrth gwrs, mae yna swyddi ychwanegol wedyn wedi cael eu hariannu drwy grantiau, drwy'r grant gwella addysg, ac ati, ond mae'r rheini yn swyddi dros dro am dymor, beth bynnag yw tymor y grant, ac mae'r bobl hynny wedyn yn

quite a bit across the different regions. In terms of the way that you operate, could you explain to us how many full-time staff you have, how many staff members are seconded, whether you have problems in terms of recruitment and whether there are a lot of vacant posts, just so that we can have some kind of flavour of the situation that you're in at present?

Mr H. Evans: Okay. If I could first of all explain that we do have a percentage of full-time staff, a percentage that are part-time and a percentage that are on secondment. If we are looking at the staff funded from the central pot rather than the temporary posts funded through grants—it's important that we compare like-for-like here—we have 30 challenge advisers working on a full-time basis in terms of full-time posts, but a percentage of those are job shares, so they're part-time, and a percentage are on secondment from schools and so on, and that allows us to have that range of experience that we need within the service, as well as some stability in the central team.

Over and above that, there are additional posts that are funded via grants, the education improvement grant and so on, and those are temporary posts over the term of the grant, and those people work in very specific areas.

gweithio mewn ardaloedd penodol iawn.

[158] Mae'r nifer sydd wedi cael ei osod wedi cael ei osod gan y gwasanaeth yn ganolog gan GwE pan sefydlwyd y gwasanaeth ar gyfer bodloni anghenion cytundeb lefel gwasanaeth penodol a gafodd ei greu ar y pryd, ac sydd wedi cael ei addasu wedyn yng ngoleuni datblygiadau'r model cenedlaethol.

[159] **Aled Roberts:** Roeddech yn cyfeirio at y staffio craidd ac yn awgrymu bod yna wahaniaethau ar draws Cymru o ran y nifer o staff sy'n cael eu hariannu drwy grantiau—

[160] **Mr H. Evans:** Mae o'n wir bod yna wahaniaeth. Mae yna wahaniaeth yn sut mae'r grantiau yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ardaloedd. Nid wyf yn meddwl bod hynny o angenrheidrwydd yn bryder; mae'n rhaid i bob ardal allu ymateb i'w anghenion lleol ei hun, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig eu bod yn cael y cyfleoedd i wneud hynny. Ond, yn ein hardal ni, rydym yn adnabod lle rydym angen defnyddio'r grantiau hynny, mewn amryfal ffyrdd weithiau—drwy wasanaeth canolog GwE, weithiau drwy'r chwe awdurdod lleol sydd yn amlwg yn bartneriaid clos efo ni yn hyn o beth, ac mae gan bob rhanbarth ei threfniadau ei hun ynglŷn â gwneud hynny er mwyn bodloni anghenion lleol, byddwn i'n dweud.

The numbers designated were set by the central service in GwE when it was established to meet the requirements of the specific service level agreement created at the time, and has been adapted in light of developments in terms of the national model.

Aled Roberts: You referred the core staff and you suggested that there were variations across Wales in terms of the number of staff who are funded through grants.

Mr H. Evans: It is true that there is a difference. There's a difference in the way in which grants are used in different areas. I don't think that's necessarily a concern; every area must be able to meet its own local needs, and it's important that they have an opportunity to do that. But, in our area, we identify where those grants need to be used, in various different ways sometimes—through the central GwE service, sometimes through the six local authorities that are close partners in that regard, and each region has its own arrangement in terms of doing that in order to meet local needs, is what I would say.

[161] **Aled Roberts:** Ocê, a beth yw maint eich cyllideb ganolog chi? Ac o ystyried faint o bwysau sydd ar awdurdodau lleol wrth edrych ymlaen, rydym yn ymwybodol bod yna gynlluniau busnes ar gyfer tair blynedd, rwy'n meddwl. Pa fath o sicrwydd sydd gennych chi yn y ffordd rydych chi yn cael eich ariannu? A oes yna berygl bod rhai awdurdodau hwyrach yn ystyried cwtogi ar y grant sy'n dod atoch chi fel gwasanaeth?

[162] **Mr H. Evans:** Mi wna i ddechrau, ond rwy'n siŵr y bydd lan eisiau dod i mewn wedyn. Mae maint cyllideb ganolog GwE yn cael ei osod drwy'r model cenedlaethol—oddeutu £4.1 miliwn. Mae hwnnw wedi cael ei osod allan ac mae o yna o fewn model. Mae tua £0.5 miliwn o hwnnw yn aros gyda'r awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhan o'r model cenedlaethol, ond sydd yn dal i gael eu darparu drwy strwythurau a systemau'r awdurdodau lleol unigol. Mae enghreifftiau o hynny ym meysydd adnoddau dynol, meysydd cefnogaeth i lywodraethwyr ac ati, sydd yn rhan o'r model cenedlaethol, ond mae'r rheini'n cael eu rhedeg drwy strwythurau rhanbarthol sydd yn sefyll o fewn yr awdurdodau lleol eu hunain.

[163] O ran sicrwydd i'r dyfodol, nac oes, nid oes sicrwydd i'r dyfodol mwy na mewn unrhyw system arall. Mi gawsom ni yng ngogledd Cymru

Aled Roberts: Okay, and what is the size of your central budget? And bearing in mind how much pressure there is on local authorities looking ahead, we're aware at present that there are three-year business cases. What kind of assurance do you have in the way that you are funded? Is there a risk that some authorities may consider cutting the grants that come to you as a service?

Mr H. Evans: I will start, but I'm sure that lan will want to come in then. The size of the GwE's central budget is set through the national model—around £4.1 million. That is set out and is within the model. Some £0.5 million of that remains with the local authorities to provide services that are part of the national model, but are still provided through the individual authorities' local systems and structures. There are examples of that in human resources, in governance support and so on, which are part of the national model, but those are run through regional structures, which remain within the individual local authorities themselves.

In terms of assurances for the future, no, there are no assurances for the future more than in any other system. We in north Wales reached

gytundeb, pan sefydlwyd y agreement when the service was gwasanaeth, i greu cyfnod o dair established to have a three-year blynedd pan oedd cyllideb y period where the central budget was gwasanaeth canolog yn cael ei guaranteed and that period comes to warantu ac mae'r cyfnod hwnnw yn an end in April 2016. As a result of dod i ben ym mis Ebrill 2016. O that, the service is currently—we've ganlyniad i hynny, mae'r gwasanaeth been having discussions this week, wrthi rŵan—rydym wedi bod yn cael and we'll be having further trafodaethau yr wythnos yma, a discussions with the six chief byddwn yn cael trafodaethau pellach executives in north Wales, on what efo'r chwe prif weithredwr yng the implications of cuts of various ngogledd Cymru, ynglŷn â beth different scales would be for the fyddai goblygiadau toriadau o service, and therefore, for the wahanol feintiau i'r gwasanaeth, ac schools, and therefore, to learner felly i'r ysgolion, ac felly i gyflawniad attainment, and we have to model disgyblion, ac rydym yn gorfod that on the basis of a various range modelu hynny ar sail amrediad of percentages of cuts. gwahanol o ganrannau o doriadau.

[164] **Mr Budd:** GwE is very much a joint service of the six authorities. Its work programme is collectively owned across those six authorities. It has, underpinning it, a joint agreement between the six authorities and the governance arrangement is through a joint committee arrangement. Any discussions in terms of the local authorities' contributions to GwE's work programme for future years will continue to be done on a joint authority basis. If you were to be asking me around recommendations for system design and development going forward, of course, if you are looking for a long-term strategy in terms of school improvement, confidence in terms of school improvement programmes and deployment of resources, given that there is a significant amount of funding going into school improvement from the individual authorities—. But alongside that, a lot of the development programme is funded through specific grants. There would be more rigour to the business planning and more confidence in the business planning if, in some way, collectively, all the tiers of the system could work together to be working on medium-term financial targets—three-year financial targets—rather than grants often being announced as late as March and then having to adjust strategy at the last moment.

[165] **Aled Roberts:** So, as far as the operation of the joint service is concerned, will it be the case, then, that there will be a business plan going forward that would be presented to the board of GwE?

[166] **Mr H. Evans:** To the joint committee.

[167] **Aled Roberts:** And then if there was a reduction in grant there would be a common approach across the six authorities. That's what's envisaged then, is it?

[168] **Mr Budd:** Absolutely. It's a joint discussion in terms of developing how specific grants, or grant reductions, are announced and how they are handled, and those recommendations go through to a joint committee and through the decision-making mechanisms of the individual authorities as well, where there are implications in terms of match funding.

[169] **David Rees:** Suzy has a specific point here.

[170] **Suzy Davies:** It's just for confirmation really. There are various criticisms being levelled at the consortia at the moment; I don't want to ask about those now, but from what you're saying, none of that can be attributed to uncertainty about local government reorganisation.

[171] **Mr Budd:** In short, no, nothing to do with local government reorganisation.

[172] **Suzy Davies:** Thank you very much.

[173] **Mr Budd:** In fact, I do think that consortia arrangements do help us in terms of resilience through a period of uncertainty around potential local government reorganisation.

[174] **Suzy Davies:** Okay; thanks.

[175] **Aled Roberts:** A alla i jest ofyn ichi ateb un peth wnes i ofyn yn gynharach? Faint o swyddi gweigion sydd gennych chi o fewn eich strwythur ar hyn o bryd? Hefyd, wrth ystyried bod beirniadaeth, i ryw raddau, o fewn adroddiad Estyn ynglŷn â chryfder hunanasesiad y consortiwm, beth rydych yn gweld, wrth ystyried eich profiad personol

Aled Roberts: Can I just ask you to answer one thing that I asked earlier? How many vacant posts do you have within your structure at present? Also, considering that there has been some criticism, to an extent, within Estyn's report about the strength of self-assessment by the consortium, what do you see, in considering your personal experience, as GwE's main

chi, fel prif wendidau GwE ar hyn o bryd? weaknesses at present?

[176] **Mr H. Evans:** Yng nghydestun swyddi gweigion, ar hyn o bryd mae gennym un swydd barhaol ran-amser sydd yn wag ac sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd, gyda'r dyddiad cau yn llythrennol heddiw. Mae honno ar gyfer cynyddu gwaith GwE i mewn i'r unedau cyfeirio disgyblion ar draws y rhanbarth nad ydynt, yn hanesyddol, wedi bod yn rhan o'r gwasanaeth. Nid yw hi'n swydd wag oherwydd ein bod ni wedi methu ei llenwi hi; mae hi'n swydd wag oherwydd ein bod ni'n symud rwan i gynnwys yr unedau, sydd yn hanfodol bwysig, wrth gwrs, efo plant bregus yn eu plith nhw, i weithio o dan fantell GwE mewn ffordd newydd.

Mr H. Evans: In the context of vacancies, at present, we have one permanent part-time post which is vacant and which is being advertised at present, and the closing date is literally today. That is to expand GwE's work into the pupil referral units across the region, which historically haven't been part of our remit. So, it's not a vacant post because we've failed to fill it; it's a vacant post because we are moving to include the units, which are crucially important, of course, with vulnerable children as part of their responsibilities, under the auspices of GwE in a new model.

[177] Mi wnaethoch chi ofyn wedyn ynglŷn â'r gwendidau, fel rwy'n eu gweld nhw, ac yn sicr mi fyddwn i'n dweud yn y fan hon, yn y lle cyntaf, mai fy mhryder mwyaf i a'r gwendid mwyaf rwy'n ei weld o fewn y gyfundrefn ar hyn o bryd ydy'r ffaith bod perfformiad ysgolion unigol yn tueddu i fod yn oriog, i fyny ac i lawr, ac mae'r cysondeb rydym ni'n gweld o ran cynnydd cyson ar draws ein hysgolion ni yn anodd iawn i'w gael. Er eich bod chi'n gweld ar draws rhanbarth, ac ar draws lefel awdurdodau lleol, mi welwch chi gynnydd cyffredinol yn y mwyafrif o achosion. Pan ydych chi'n dod i edrych ar, yn arbennig yn y sector

You then asked about the weaknesses as I see them, and, certainly, I would say in the first place that my greatest concern and the greatest weakness I see within the system at present is the fact that individual schools' performance does tend to be inconsistent, up and down, and the consistency we see in terms of development and progress within our schools is very difficult to attain. So, although across a region and across the local authority level, you may see general progress being made in most cases, when you look, particularly in the secondary sector, at 55 schools, then the performance, although improving over a period of

uwchradd, 55 o ysgolion, mae'r perfformiad, er efallai'n gwella dros gyfnod, yn tueddu i fod yn oriog, Rwy'n meddwl bod gallu adnabod pryd mae'r newidiadau yma'n digwydd yn hanfodol inni.

[178] Mi wnaethoch chi gyfeirio yn gynharach at berfformiad cymharol GwE â pherfformiad awdurdodau eraill. Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig, yn y cyd-destun yna, fy mod i'n egluro hefyd pan ydych chi'n edrych ar yr ysgolion isaf eu perfformiad yn GwE yn hanesyddol, bod y cynnydd rydym ni wedi ei weld yn unol â ffigurau dros dro 2015 yn yr ysgolion hynny nid yn unig yn uwch na'r cynnydd rhanbarthol ond hefyd yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol sydd wedi bod. Mae'r ysgolion hynny lle mae perfformiad wedi bod yn bryder yn hanesyddol wedi gwneud cynnydd llawer uwch ar gyfartaledd na'r patrwm ar draws Cymru.

[179] Ond pan ydych chi'n edrych yn gyffredinol wedyn ar ysgolion sydd wedi bod yn gymharol uchel eu perfformiad, mae yna enghreifftiau o ysgolion sydd wedi syrthio ac mae yna enghreifftiau o ysgolion sydd wedi syrthio ac wedi codi eto. Tra bo'r patrwm oriog yna yn parhau, mae o'n wendid o fewn y gyfundrefn yn fy marn i. Pan rydw i'n edrych yn ôl dros ddata 10 neu 15 mlynedd, rydych chi'n gweld yn union yr un patrymau. Rwan, rwy'n derbyn eich bod chi'n mynd i weld cynnydd a

time, does tend to be up and down. I think being able to identify when these changes actually happen is crucial for us.

You made reference earlier to GwE's performance in comparison with other authorities. I think it's important, in that context, that I explain also that when you look at the lowest performing schools in GwE on a historic basis that the progress that we have seen in accordance with the unverified 2015 figures in those schools is not only higher than the regional progress that has been made, but also the national improvements made. So, those schools where performance has been a concern in the past have made far greater progress, on average, than the pattern across the whole of Wales.

But when you then look in general at schools that have performed relatively well, there are examples of schools where there has been a decline in performance and there are examples of schools that have declined and then raised their performance again. Whilst we have that inconsistency, it is a weakness within the system, in my view. When I look back over the data over 10 or 15 years, you see exactly the same patterns. Now, I accept that you will see a rise and fall in any school,

gostwng mewn unrhyw ysgol, yn dibynnu ar natur y garfan unigol o fewn yr ysgol honno. Yr hyn sy'n fy mhryderu ydy lle mae'r cynnydd neu'r gostyngiad hwnnw yn annisgwyl inni ac i'r ysgol.

depending on the nature of the individual cohort within that school. What concerns me is where that rise or fall in performance is unexpected for us and for the school.

[180] **David Rees:** A quick one, and then Simon is coming in.

[181] **Keith Davies:** Roeddech chi wedi sôn fanna am 55 o ysgolion, ac rwy'n cofio gweithio mewn awdurdod â 47 o ysgolion uwchradd. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, roedd y cyfarwyddwr addysg yn galw penaethiaid y 10 ysgol a wnaeth waethaf yn y flwyddyn, a chyfrifoldeb yr awdurdod oedd e. Gyda chi, ai cyfrifoldeb yr awdurdod yw hi nawr i edrych ar yr ysgolion hyn, neu ai'ch cyfrifoldeb chi fel consortiwm? Pwy sydd â'r cyfrifoldeb?

